UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

www.ucac.cymru

Newidiadau i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Iona A. Davies

Sefydliad (os yw'n gymwys): UCAC

e-bost/rhif ffôn: iona@ucac.cymru

Eich cyfeiriad: Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2EU

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn 14 Chwefror 2025 i:

Gangen Llywodraethiant, Trefniadaeth a Derbyniadau i Ysgolion
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: SGOA@llyw.cymru

Cwestiwn 1 – A yw'r Cod drafft yn esbonio'n glir y ddeddfwriaeth berthnasol sydd wedi dod i rym ers cyhoeddi Cod 2018 a'r effaith y mae'r ddeddfwriaeth hon wedi'i chael ar y gofynion a'r canllawiau yn y Cod? (Os na, amlinellwch pa wybodaeth ychwanegol fyddai'n ddefnyddiol.)

Cytuno	☐	**Anghytuno**	☐	**Ddim yn cytuno nac yn anghytuno**	✓

Sylwadau ategol

Mae rhestru'r deddfau amrywiol a pherthnasol ar ddechrau'r ddogfen yn hwyluso pethau i'r darllenydd. Er mwyn hwyluso ymhellach, byddai cael pennawd 'Cyd-destun - Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013' yn fuddiol ac yn rhoi sylw priodol i'r ddeddfwriaeth sydd wrth wraidd y Cod. Ar hyn o bryd, ceir y pennawd 'Crynodeb o'r newidiadau yn y trydydd argraffiad drafft o'r Cod'. Byddai is-bennawd o dan hwnnw yn cyfeirio at Ddeddf 2013 yn gymorth a byddai cael is-bennawd arall uwchben yr ail baragraff yn cyfeirio at 'Ail argraffiad o'r Cod (2018)' yn gwneud pethau'n fwy eglur i'r darllenydd.

Cwestiwn 2 – A ydych yn cytuno y dylid cyhoeddi dogfennau allweddol fel y ddogfen ymgynghori, adroddiad ymgynghori, hysbysiad statudol, adroddiad gwrthwynebu a hysbysiad penderfynu ar wefan yr awdurdod lleol yn ogystal â gwefan y cynigydd (os oes ganddynt un) i sicrhau'r sylw mwyaf?

Cytuno	✓	**Anghytuno**	☐	**Ddim yn cytuno nac yn anghytuno**	☐

Sylwadau ategol

Mae hi'n hollbwysig bod yn gwbl dryloyw a sicrhau bod y dogfennau allweddol ar gael yn hawdd ac yn yr holl lefydd y byddai pobl yn debygol o chwilio amdanynt.

Cwestiwn 3 – A ydych yn cytuno y dylid ychwanegu arolygiadau ardal at y rhestr o dystiolaeth y dylai cynigwyr ei hystyried wrth asesu effaith cynigion ar ansawdd a safonau mewn addysg?

Cytuno	✓	**Anghytuno**	☐	**Ddim yn cytuno nac yn anghytuno**	☐

Sylwadau ategol

Mae'n bwysig bod pawb yn cael y darlun llawn a bod safbwyntiau lleol yn cael eu hystyried wrth asesu cynigion.

Cwestiwn 4 – A ydych yn cytuno, wrth gynnig dod â darpariaeth chweched dosbarth i ben mewn ysgol, y dylai fod yn ofynnol i gynigwyr ystyried a oes gan ddarpariaeth

amgen ddigon o gapasiti a'i bod o ansawdd cyfatebol o leiaf, fel ag y maent ar hyn o bryd ar gyfer cau ysgolion?

Cytuno	✓	Anghytuno	☐	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	☐

Sylwadau ategol

Rydym yn credu nad ar chwarae bach y dylid dod â darpariaeth chweched dosbarth i ben mewn ysgol a dylid ystyried o ddifrif a yw'r ddarpariaeth amgen yn cynnig addysg o'r un ansawdd. Mae'n bwysig bod ystyriaeth ofalus yn cael ei rhoi i faterion fel hygyrchedd, cyfrwng iaith a'r effeithiau ar les a gofal dysgwyr a staff wrth wneud unrhyw newidiadau. Rhaid gwneud hyn mewn modd trylwyr, gwrthrychol, agored. Mae'n bwysig sicrhau mai dim ond gyda chaniatâd Gweinidogion y Llywodraeth y gellir newid darpariaeth chweched dosbarth mewn ysgol. Mae'n bwysig sylweddoli fod darpariaeth chweched dosbarth yn fwy na chynnig pynciau a chyrsiau i ddysgwyr 16-18 – mae'n cynnig ystod eang o gyfleoedd i'r dysgwyr ac yn cyfoethogi bywyd sefydliad addysgol, yn effeithio ar lesiant staff a disgyblion iau, yn ogystal â llesiant y myfyrwyr 16-18 oed.

Cwestiwn 5 – A ydych yn cytuno y dylai cynigwyr roi sylw i Ganllawiau Achos Busnes Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a safonau gofodol Llywodraeth Cymru wrth ystyried a fydd gan ddarpariaeth ysgol amgen ddigon o gapasiti ac a fydd yn darparu adeiladau ac ystafelloedd o ansawdd cyfatebol o leiaf?

Cytuno	☐	Anghytuno	☐	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	✓

Sylwadau ategol

Mae'n amlwg bod y Canllawiau Achos Busnes Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn rhoi sylw i faterion pwysig – materion cynaliadwyedd, hygyrchedd ayb a byddem yn cytuno â'r ymrwymiad sy'n sail i'r Canllawiau, sef 'creu ystâd gynaliadwy'. Ar y llaw arall, rhaid bod yn ofalus rhag rhoi gormod o sylw i faterion biwrocrataidd. Mae'r asesiadau pellach a wneir hefyd i wirio buddion sy'n ddisgwyliedig o ganlyniad i'r prosiect, yn bwysig – materion megis: • gostyngiad mewn capasiti dros ben / bod capasiti digonol wedi cael ei wireddu • gwelliannau i ddeilliannau dysgwyr • unrhyw swyddi / prentisiaethau a grëwyd • gostyngiad yn y cyfraddau absenoldeb ac ati • cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n teithio'n weithredol i'r ysgol. Mae angen rhoi ystyriaeth i bob elfen a sicrhau, fel y nodwyd eisoes, bod sylw gofalus i faterion llesiant yn ogystal â data meinitiol.

Cwestiwn 6 – A ydych yn cytuno, wrth ystyried ffactorau ychwanegol i'w dwyn i ystyriaeth wrth baratoi, cyhoeddi, cymeradwyo neu benderfynu ar gynigion ar gyfer ad-drefnu DAA/DDdY, y dylai cynigwyr ystyried sut y bydd y cynigion yn helpu'r ysgol i sicrhau DDdY i ddisgyblion ag AAA/ADY?

Cytuno	✓	Anghytuno	☐	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	☐

Sylwadau ategol

Mae hi'n hollbwysig fod sylw manwl yn cael ei roi i'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ADY ac mae angen pob cymorth ar ysgolion i sicrhau'r ddarpariaeth orau ar eu cyfer.

Cwestiwn 7 – A ydych yn cytuno y dylid cynnwys map yn y ddogfen ymgynghori ochr yn ochr â'r wybodaeth sy'n ymwneud â lleoliad yr ysgol, lle mae cynigion yn ymwneud â sefydlu ysgol newydd?

Cytuno	✓	**Anghytuno**	☐	**Ddim yn cytuno nac yn anghytuno**	☐

Sylwadau ategol

Mae eglurder a thryloywder yn allweddol ac wrth gael map yn rhan o'r ddogfen, mae'n hwyluso pethau i'r darllenwyr. Mae'n rhoi cyfle i gael darlun clir lle mae pob sefydliad a enwir yn y ddogfen ac yn gyfle i asesu hygyrchedd a chyfleustra unrhyw ddarpariaeth amgen.

Cwestiwn 8 – A ydych yn cytuno y dylid cynnwys manylion unrhyw drefniadau trosiannol yn y ddogfen ymgynghori, lle mae cynigion yn ymwneud â chau ysgol?

Cytuno	✓	**Anghytuno**	☐	**Ddim yn cytuno nac yn anghytuno**	☐

Sylwadau ategol

Mae cau ysgol bob amser yn creu ansicrwydd ac mae hynny'n gwbl ddealladwy. Mae lleddfu gofidiau a lliniaru amheuon ac ansicrwydd yn rhan bwysig o'r broses o gau ysgol. Po fwyaf o wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno, gorau oll. Rhaid sicrhau fod y wybodaeth a gyflwynir yn gywir, yn onest ac yn cynnig manylion a fydd yn ddi-os yn cael eu cyflawni. Mae'n gwbl ddi-bwynt cynnwys addewidion gwag mewn dogfen o'r fath.

Cwestiwn 9 – A ydych yn cytuno y dylid cynnwys yr wybodaeth ganlynol yn y ddogfen ymgynghori, lle mae cynnig yn ymwneud ag ychwanegu neu gael gwared ar ddarpariaeth chweched dosbarth:

- enw a lleoliad yr ysgolion neu'r sefydliadau addysg eraill amgen arfaethedig y gall dysgwyr eu mynychu (gan gynnwys map)?

Cytuno	✓	**Anghytuno**	☐	**Ddim yn cytuno nac yn anghytuno**	☐

- cymhariaeth o ansawdd a safon yr addysg a ddarperir yn yr ysgolion y byddai'r dysgwyr yn trosglwyddo ohonynt a'r ysgolion neu'r sefydliadau addysg eraill amgen arfaethedig, ac amlinelliad o unrhyw gamau y bydd angen eu cymryd i sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw ddiffygion?

Cytuno	✓	Anghytuno	☐	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	☐

- y trefniadau derbyn yn yr ysgolion neu'r sefydliadau addysg eraill amgen arfaethedig?

Cytuno	✓	Anghytuno	☐	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	☐

- yr effaith debygol ar staff yr ysgolion a enwyd yn y cynigion?

Cytuno	✓	Anghytuno	☐	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	☐

- yr effaith ar deithiau dysgwyr, staff ac ymwelwyr i'r ysgolion neu'r sefydliadau addysg eraill amgen ac ar gostau cludiant i'r ysgol?

Cytuno	✓	Anghytuno	☐	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	☐

- gwybodaeth am lwybrau cerdded, olwyno a beicio sydd ar gael a thrafnidiaeth gyhoeddus i'r ysgolion neu'r sefydliadau addysg eraill amgen?

Cytuno	✓	Anghytuno	☐	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	☐

- cyfrwng iaith yr ysgolion neu'r sefydliadau addysg eraill amgen arfaethedig?

Cytuno	✓	Anghytuno	☐	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	☐

- unrhyw drefniadau pontio?

Cytuno	✓	Anghytuno	☐	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	☐

Sylwadau ategol

Mae'n bwysig bod cymaint o wybodaeth â phosibl yn cael ei chyflwyno yn y cynigion. Mae rhai elfennau o wybodaeth yn hawdd eu cofnodi e.e. enwau ysgolion ond mae materion fel cymharu safon yr addysg rhwng un ysgol a'r llall yn fater llawer mwy goddrychol ac mae'n anodd adlewyrchu yr holl elfennau sy'n bwysig i ddysgwyr. Yn yr un modd, mae'n anodd iawn gwybod yn union beth fydd yr effeithiau ar ddysgwyr a staff. Wrth roi ystyriaeth i gyfrwng iaith yr ysgolion neu'r

sefydliadau addysg eraill arfaethedig, mae angen sicrhau bod yr wybodaeth yn fanwl a thrylwyr. Rhaid rhoi sylw i ethos yr ysgol/sefydliad addysg ac nid rhoi sylw i 'label' yn unig. Mae'n bwysig bod dysgwyr yn gwybod beth yn union sy'n cael ei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg a beth yw'r trefniant mewn dosbarthiadau, faint sydd fel rheol yn dewis y pwnc, y canlyniadau yn y pwnc, faint sy'n dechrau ac yn gorffen y cwrs ayb.

Cwestiwn 10 – A ydych yn cytuno â'r rhestr estynedig o wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yn yr Asesiad Effaith ar y Gymraeg, sy'n ofynnol ar gyfer pob cynnig statudol? (Os nad ydych, nodwch pa agweddau ar yr wybodaeth rydych yn anghytuno â nhw, neu os credwch y dylai fod unrhyw ofynion ychwanegol.)

Cytuno	✓	**Anghytuno**	☐	**Ddim yn cytuno nac yn anghytuno**	☐

Sylwadau ategol

Fel y nodwyd mewn ymateb i gwestiwn blaenorol (cwestiwn 9), mae'n bwysig bod y wybodaeth am yr effaith ar y Gymraeg yn cael sylw manwl a thrylwyr. Wrth roi ystyriaeth i gyfrwng iaith yr ysgolion neu'r sefydliadau addysg eraill arfaethedig, mae angen sicrhau bod yr wybodaeth yn fanwl a thrylwyr. Rhaid rhoi sylw i ethos yr ysgol/sefydliad addysg ac nid rhoi sylw i 'label' yn unig. Mae'n bwysig bod dysgwyr yn gwybod beth yn union sy'n cael ei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg a beth yw'r trefniant mewn dosbarthiadau, faint sydd fel rheol yn dewis y pwnc, y canlyniadau yn y pwnc, faint sy'n dechrau ac yn gorffen y cwrs ayb. Rhaid pwysleisio nad yw cynnig pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr un dosbarth â'r sawl sy'n dilyn y pwnc drwy gyfrwng y Saesneg, yn opsiwn effeithiol. Nid yw'r Gymraeg yn cael chwarae teg mewn sefyllfa o'r fath a buan y bydd y dosbarth yn troi'n ddosbarth Saesneg ei gyfrwng.

Cwestiwn 11 – A ydych yn cytuno y dylid ychwanegu'r canlynol at y rhestr o unigolion a sefydliadau y mae'n rhaid rhoi gwybod iddynt bod y ddogfen ymgynghori, adroddiad ymgynghori, adroddiad gwrthwynebu, hysbysiad statudol a hysbysiad penderfynu ar gael a'u bod yn gallu cael copi papur ar gais?

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn gwybod
Ar gyfer cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth meithrin, gofal plant a gwaith chwarae	☐	☐	☐
Gwasanaeth gwybodaeth i deuluoedd yr awdurdod lleol	✓	☐	☐
Mudiad Meithrin	✓	☐	☐
NDNA Cymru	✓	☐	☐
Clybiau Plant Cymru	✓	☐	☐
Blynyddoedd Cynnar Cymru	✓	☐	☐
Pacey Cymru	✓	☐	☐

Chwarae Cymru	✓	☐	☐
Ar gyfer cynigion sy'n effeithio ar chweched dosbarth ysgolion	☐	☐	☐
Y Comisiwn	✓	☐	☐
Ar gyfer cynigion sy'n effeithio ar y Gymraeg	☐	☐	☐
Mentrau Iaith Cymru	✓	☐	☐

Os ydych yn 'anghytuno' ag unrhyw un o'r ymgyngoreion uchod, esboniwch pam, ac ychwanegwch unrhyw dderbynwyr eraill y credwch y dylid eu cynnwys.

Sylwadau ategol

Ar gyfer cynigion sy'n effeithio ar y Gymraeg – CYDAG **Ar gyfer cynigion sy'n effeithio ar y chweched dosbarth ac yn effeithio ar y Gymraeg – Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

Cwestiwn 12 – A yw adran 10 o'r Cod drafft yn glir ynghylch y gofynion yn ymwneud â swyddogaethau'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil mewn perthynas ag addysg chweched dosbarth sy'n deillio o Ddeddf 2022?

Cytuno	☐	**Anghytuno**	☐	**Ddim yn cytuno nac yn anghytuno**	☐

Sylwadau ategol

Yn Adran 9 y Cod drafft ceir cyfarwyddiadau manwl ynghylch y gofynion yn ymwneud â swyddogaethau'r Comisiwn mewn perthynas ag addysg chweched dosbarth. Mae'n hollbwysig fod y Comisiwn yn gwbl wrthrychol wrth wneud unrhyw benderfyniad ac wrth roi unrhyw gyfarwyddyd. Mae egwyddor 1.5 yn allweddol, 'Dylai cyrff perthnasol roi blaenoriaeth i fuddiannau dysgwyr uwchlaw pawb arall'. Mae 1.45 hefyd yn crynhoi'r hyn sydd o bwys mawr. Mae'n rhaid rhoi ystyriaeth ddwys i bob achos unigol a meddwl am ystyriaethau y tu hwnt i ystyriaethau sy'n ymddangos yn 'ddu' a 'gwyn' ar bapur. Nid yw ystyried effeithiolrwydd cost ar ei ben ei hun yn ddigon, er enghraifft. Mae addysg chweched dosbarth yn fater cymhleth ac yn amrywio o ardal i ardal. Mae dyfodiad y Comisiwn (MEDR) yn mynd i effeithio ar addysg ôl-16, ond rhaid sicrhau nad yw'n cael effaith negyddol ar addysg chweched dosbarth mewn ardaloedd gwledig nac ar addysg chweched dosbarth mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Cwestiwn 13 – A yw adran 11 o'r Cod drafft yn glir mewn perthynas â hysbysiad corff llywodraethu i derfynu ysgol sefydledig neu wirfoddol?

Cytuno	☐	**Anghytuno**	☐	**Ddim yn cytuno nac yn anghytuno**	✓

Sylwadau ategol

Cwestiwn 14 – Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y Cod drafft ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?
- Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Sylwadau ategol

Rydym yn croesawu unrhyw sylw a roddir i'r Gymraeg a'r rôl sydd gan addysg i'w chwarae tuag at gyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae rhoi sylw i effaith unrhyw benderfyniad ar y Gymraeg (asesiad o'r effaith ar y Gymraeg) yn egwyddor y tybiwn sydd yn bwysig. Mae'n hollbwysig bod asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg yn rhai trylwyr a thryloyw.

Rydym wedi cyfeirio at rai pryderon mewn perthynas ag addysg ôl-16 yn yr ymateb i gwestiwn 12.

Cwestiwn 15 – Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu'r Cod drafft er mwyn sicrhau:

- ei fod yn cael effeithiau positif neu fwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg; a

- nad yw'n cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg?

Sylwadau ategol

Er mwyn sicrhau'r uchod, buasai'n syniad rhoi mwy o sylw i'r asesiad o'r effaith ar y Gymraeg. Teimlwn fod angen rhoi sylw i bob agwedd o'r Gymraeg mewn sefydliadau, gan roi mwy o sylw i ethos ysgol, yr iaith gymdeithasol o fewn yr ysgol ayb.

Cwestiwn 16 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw broblemau cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma:

Yn anffodus, ymddangosodd dogfen a oedd yn crynhoi'r newidiadau i'r ddogfen yn uniaith Saesneg ar y wefan. Y cyfiawnhad dros gyflwyno dogfen uniaith Saesneg oedd 'Given the number of changes which are grammatical in nature, this table is provided in English only'. O edrych ar y ddogfen, mae'n amlwg bod llawer mwy wedi ei gynnwys yn y ddogfen na newidiadau

gramadegol. Mae'r ffaith na chafwyd dogfen Gymraeg gyfatebol yn creu pryderon ynghylch y modd y mae'r Gymraeg yn cael ei thrin. Mae'r 'rheswm' a roddir ar ddechrau'r ddogfen a'r cyfiawnhad dros lunio dogfen Saesneg yn unig yn sarhad ar Gymry Cymraeg ac yn gamarweiniol h.y roedd yna nifer fawr o newidiadau nad oedd yn newidiadau gramadegol ac roeddent yn effeithio ar y fersiynau Cymraeg a Saesneg. Ni ellir pwysleisio digon pa mor bwysig yw tryloywder ac uniondeb. Os honnir bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal, yna mae'n rhaid gweld hyn mewn gweithredoedd bach a mawr. Ai dim ond mewn enw yr honnir bod y ddwy iaith yn gyfartal? Os felly, mae pryder mawr a yw'r addewidion am y Gymraeg a geir yn y cod yn rhai y gellir ymddiried ynddynt.

Gwn fod y ddogfen hon wedi'i thynnu i lawr oherwydd cwynion am ei chynnwys, ond y gwir yw ei bod wedi ymddangos ac na chafwyd fersiwn Gymraeg gyfatebol.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐